

TELT: Cwestiynau Cyffredin

Pryd y caiff y cyrsiau eu cynnal a pha mor hir y byddant yn para?

Bydd y gwaith cwrs yn dechrau ar 3 Hydref 2020 ac yn dod i ben ar 8 Gorffennaf 2021.

Noder, disgwylir i bob myfyriwr ddarllen y deunyddiau ymsefydlu ar gyfer hunanastudio a chymryd rhan yn un o'r gweminarau ymsefydlu a gynhelir yn ystod y pythefnos cyn i'r cwrs ddechrau. Bydd hyn yn sicrhau bod pob myfyriwr yn barod i ddechrau ei waith cwrs ar 3 Hydref.

Cynhelir y cyrsiau dros gyfnod o 35 wythnos. Nid yw hyn yn cynnwys gwyliau: bydd pythefnos o seibiant dros gyfnod y Nadolig a seibiant o dair wythnos dros gyfnod y Pasg.

A allaf ohirio neu roi'r gorau i'm hastudiaethau ar y cwrs hwn?

Ni fydd yn bosibl gohirio'r modiwl ar ôl y dyddiad dechrau. Bydd angen i chi dalu'r ffi, ac ni fydd modd ad-dalu'r arian i chi os byddwch yn penderfynu gohirio neu roi'r gorau i astudio'r modiwl. Dyna'r rheswm ei bod yn bwysig i chi gynllunio ymlaen llaw a sicrhau y byddwch yn gallu neilltuo digon o amser i'ch astudiaethau.

Faint o ymrwymiad amser sydd ei angen wrth astudio'r cwrs hwn?



Bydd yn rhaid i chi dreulio tua

phedair awr bob wythnos yn astudio ar y cwrs hwn.

At hynny, os bydd eich amgylchiadau'n caniatáu, byddwch yn treulio tuag awr yn cymhwyso'r hyn y byddwch wedi'i ddysgu yn eich ystafell ddosbarth.

Mae amserlen y cwrs yn hyblyg iawn – gallwch benderfynu pryd mae gennych amser i astudio yn ystod yr wythnos.

Gallwch amserlennu 90% o'r amser y byddwch yn ei dreulio'n astudio'r cwrs hwn yn ôl eich argaeledd eich hun.

A fyddaf yn cael unrhyw gydnabyddiaeth am y gwaith y byddaf yn ei wneud ar y cwrs hwn?

Byddwch. Bydd rhan dysgu iaith y cwrs yn achrededig, a gallwch ennill 15 o bwyntiau credyd ar gyfer astudiaeth ar Lefel 1, sy'n cyfrif tuag at Radd Agored Y Brifysgol Agored.

Byddwch yn cael tystysgrif am gwblhau llinyn addysgeg y cwrs astudio yn llwyddiannus.

Ble y bydd yn rhaid i mi 'fynd' ar-lein i astudio?

Byddwch yn cael manylion mewngofnodi'r Brifysgol Agored ar ôl i chi gofrestru, ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut i fewngofnodi i'ch tudalen ar wefan StudentHome.

Ar StudentHome, byddwch yn gallu cyrchu gwefan y cwrs, lle bydd myfyrwyr a thiworiaid yn cwrdd a lle y gallwch gael gafeol ar yr holl ddeunyddiau ac adnoddau ar-lein ar gyfer eich cwrs, gan gynnwys yr ystafell diwtora ar-lein.

Pa fath o bethau sy'n rhan o'r broses o astudio'r cwrs hwn?

a. Ar gyfer y rhan iaith, byddwch yn:

- cael cymorth gan eich tiwtor iaith yn Y Brifysgol Agored, a fydd hefyd yn marcio eich aseiniadau.
- ymgymryd â hunanastudiaeth dan arweiniad o weithgareddau'r cwrs a recordiadau sain/fideo. Mae'r deunyddiau hyn ar-lein, fel y gallwch wneud yr holl waith ar eich cyfrifiadur. Gallwch lawrlwytho'r rhan fwyaf o'r deunyddiau, ac argraffu gweithgareddau'r cwrs, os byddwch yn dymuno gwneud hynny.
- gweithio ar weithgareddau ar-lein rhyngweithiol y cwrs, h.y. cwisiau i brofi eich sgiliau darllen a gwranddo, yn ogystal â gweithgareddau i'ch helpu wrth adolygu geirfa a gramadeg.
- llunio dau aseiniad byr, un ysgrifenedig ac un llafar (y byddwch yn ei recordio ac yn ei anfon yn electronig at eich tiwtor).

b. Ar gyfer y rhan addysgeg, byddwch yn:

- cael cymorth gan eich tiwtor addysgeg, a fydd yn unigolyn gwahanol i'ch tiwtor iaith fel arfer. Bydd y tiwtor addysgeg yn cymedroli trafodaethau fforwm yr unedau ac yn asesu eich perfformiad yn y tasgau asesu ffurfiannol.
- astudio deunydd a ddewiswyd gennym er mwyn rhoi trosolwg i chi o agweddau allweddol ar y meysydd addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd a gaiff eu hastudio yn ystod y cwrs hwn.

- cyfathrebu â'ch cyd-fyfyrwyr yn y fforwm ar-lein er mwyn cyfnewid barn am yr hyn rydych wedi'i astudio.
- cymhwyso'r hyn a ddysgwyd gennych drwy gynnal gweithgareddau wedi'u cynllunio yn eich ystafell ddosbarth eich hun.
- myfyrio ar yr addysgu a chrynhoi eich canfyddiadau mewn trafodaeth fforwm â'ch cyfoedion.

A fydd unrhyw diwtorialau wyneb yn wyneb fel rhan o'r cwrs hwn?

Bydd. Byddwn yn cynnig o leiaf ddwy ysgol ddydd (annorfol) wyneb yn wyneb, un yn agos at ddechrau'r cwrs ac un yn agos at y diwedd.



Yn y rhain, byddwch yn ymarfer yr iaith rydych yn ei hastudio, yn dysgu mwy am addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd, ac yn cael cyfle i gwrdd â chyfranogwyr eraill a'ch tiwtoriaid ac i rannu eich barn a'ch profiadau â nhw.

Bydd yr amseroedd a'r dyddiadau wedi'u nodi yn eich amserlen tiwtorialau, ac mae'r lleoliadau i'w cadarnhau.

Ein nod yw cynnal ysgolion dydd mewn amrywiaeth o fannau ledled y DU yn dibynnu ar ble mae myfyrwyr y cwrs hwn yn byw.

Rhag ofn na fyddwch yn gallu bod yn bresennol yn y sesiynau wyneb yn wyneb, byddwn yn cynnal sesiynau cyfatebol ar-lein er mwyn eich galluogi i ymdrin â'r un cynnwys â'r myfyrwyr eraill.

A fydd unrhyw wiriadau weithdai/tiwtorialau eraill?

Bydd. Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtorialau (annorfol) yn rhai ar-lein lle byddwch yn cwrdd â'ch tiwtor a'ch cyd-fyfyrwyr ac yn gofyn unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Yn y llinyn addysgeg byddwch yn gallu dechrau cynllunio eich tasgau cymhwysio gyda'ch gilydd a thrafod agweddau ar yr uned. Yn y rhan astudio iaith, byddwch yn cael cyfle i ymarfer eich sgiliau llafar ac adolygu agweddau ar eirfa a gramadeg.

A fyddaf yn dysgu mwy am ieithoedd tramor modern yn y cydestun diwylliannol ehangach?

Mae'r cwrs yn cynnwys cyfweiliadau â phobl sy'n gweithio mewn sefydliadau diwylliannol neu'n cynnal rhwydweithiau cymorth proffesiynol llwyddiannus i athrawon, yn ogystal ag amrywiaeth o fentrau cymunedol er mwyn dangos y cyfleoedd sydd ar gael i chi.

Byddwn yn darparu manylion cyswllt y sefydliadau a'r mentrau hyn er mwyn i chi allu eu gwahodd i'ch ysgol a chydweithio â nhw, os byddwch yn dymuno gwneud hynny.

Nid yw'r sesiynau hyn yn orfodol, ond rydym yn argymhell eich bod yn ceisio cymryd rhan mewn cynifer ohonynt â phosibl, gan y byddant yn rhoi hwb i'ch hyder wrth siarad, a byddwch yn gallu gweld sut i addysgu'r iaith hon yn ymarferol – byddwch yn cael profiad o addysgu iaith o safbwynt y myfyrwyr, yn dod i ddeall arfer da wrth addysgu ieithoedd tramor modern yn yr ystafell ddosbarth, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y gallech fod am eu hail-greu yn eich ystafell ddosbarth eich hun.

Byddwn hefyd yn cynnig gweithdai gyda'ch tiwtoriaid yn ymwneud ag astudio addysgeg addysgu ieithoedd tramor modern ar-lein.

Caiff y gweithdai a'r tiwtorialau eu cynnal gyda'r nos ar adegau a dyddiadau gwahanol er mwyn rhoi dewis i chi. Fel arfer, bydd pob sesiwn yn para rhwng 60 a 90 munud. Bydd amserlen benodol ar gyfer y sesiynau hyn a byddwch yn gallu archebu lle yn y tiwtorialau hyn.

A fydd yn rhaid i mi wedyn addysgu'r hyn y byddaf wedi ei astudio ar y cwrs hwn i athrawon eraill yn fy ysgol?

Na fydd. Y prif amcan yw eich bod yn dechrau addysgu'r iaith yn eich ystafell ddosbarth eich hun ac yn teimlo'n hyderus wrth wneud hynny.

Un o sgil-ffeithiau gwych y cwrs hwn fyddai pe byddwch yn annog athrawon eraill i astudio iaith hefyd, a ffurfio grŵp 'hyrwyddwyr addysgu iaith' yn eich ysgol er mwyn mynd ati i hyrwyddo ieithoedd yn eich ysgol

Yr hyn y mae ein cyn-fyfyrwyr yn ei ddweud

Gwrandewch ar gymeradwyaeth gan athrawon ysgolion cynradd sydd wedi cwblhau modiwlau TELT

<https://youtu.be/142T58SqQ64>